


Abaty Tyndyrn



Y ffenestr yn y wyneb blaen gorllewinol, tua 1300.

Hanes

Sefydlwyd Abaty Tyndyrn ym 1131 gan arglwydd Eingl-Normanaid Cas-gwent, Walter fitz Richard de Clare. Rhoddodd dir i grŵp bach o fynaich o abaty Sistersaidd l'Aumône yn Ffrainc. Mae safle Abaty Tyndyrn yn nodweddiadol o'r lleoliadau anghysbell a ddewisai'r Sistersiaid i godi mynachlogydd.

Mae'n debyg bod y mynaich yn byw ac yn addoli mewn adeiladau pren dros dro i ddechrau, er eu bod wedi codi eglwys a chloestr carreg erbyn canol y ddeuddegfed ganrif. Tyfodd y gymuned, ac yn ystod hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg ehangwyd adeiladau'r abaty. Dechreuwyd ar yr eglwys Gothig ragorol sy'n parhau i sefyll, er yn adfail, ym 1269. Fe'i cysegrwyd ym 1301, a hynny bron yn sicr yng ngŵydd Roger Bigod, pumed iarll Norfolk, a gefnogodd yr abaty.

Amaethai'r mynaich eu hystadau mawrion gyda chymorth brodyr lleyg. Trefnwyd y tir yn ffermydd a elwid yn faenorau, a gweithient yn galed i wella'r tir a chynyddu cynhyrchiant.

Parhaodd Tyndyrn i dyfu drwy'r Oesoedd Canol hwyr er gwaethaf effeithiau'r Pla Du a darodd Prydain ym 1348, a gwrthryfel Owain Glyn Dŵr yn erbyn Brenin a senedd Lloegr rhwng 1400 a 1415. Bu prosiectau adeiladu pellach ar raddfa fach hyd at deyrnasiad Brenin Harri VIII.

Yna, ym mis Medi 1536, ildiodd Tyndyrn i'r Brenin yn ystod diddymiad y mynachlogydd, pan feddiannodd Harri VIII eu holl dir a'u cyfoeth. Rhoddwyd yr adeiladau a'r tir i Henry Somerset, iarll Caerwrangon. Dechreuodd rentu rhannau o'r tir i bobl leol ac yn fuan roedd yr ardal o gwmpas yr abaty yn llawn bythynnod, gweithdai ac adeiladau diwydiannol. Cynhyrchwyd gwifren haearn yma ac yn uwch i fyny'r cwm. Aeth yr adeiladau'n adfeilion, a defnyddiwyd er eglwys i goetio.


Anghofwyd am Dyndyrn tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif, pan ddaeth chwilio am dirweddau gwyllt ac adfeilion prydferth i'r ffasiwn. Daeth beirdd (gan gynnwys Wordsworth) ac artistiaid (gan gynnwys Turner) o'r mudiad Rhamantaidd i chwilio am y 'darluniadwy' a'r 'dyrchafedig'. Heidiai ymwelwyr i'r ardal, a gellid cyrraedd Tyndyrn gyda chwch o'r Rhosan ar Wy. Daeth hyd yn oed mwy o dwristiaid gyda'r rheilffordd o 1876 ymlaen.

Ym 1901, arbedwyd y safle ar gyfer y genedl pan brynwyd ef gan y Goron. Cynhaliwyd rhaglenni cadwraeth mawr yn gyntaf rhwng 1901 a 1928. Ym 1984 daeth Abaty Tyndyrn o dan ofalaeth Cadw, sy'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn. Mae ymchwilio a chynnal yr adfeilion a gwella cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr yn broses barhaus.

 Cadw



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Edrych ar yr adeiladau

Roedd **adeiladau'r abaty** yn gorchuddio ardal fwy na safle presennol Cadw. Gellir gweld sylfeini adeiladau eraill — llety gwesteion mae'n debyg — a'r fynedfa wreiddiol wrth ochr y maes parcio.

Adeiladwyd yr **eglwys** odidog ar gost Roger Bigod, Arglwydd Cas-gwent ac fe'i gorffennwyd tua 1330. Nodir safle'r eglwys fach, gynharach gan linellau o garreg yn y tir. Roedd y wyneb blaen gorllewinol yn addurnedig iawn ac yn y gilfach uwchben y drws roedd cerflun o'r Fair Forwyn, y cysegrwyd yr eglwys iddi. Rhennid tu mewn yr eglwys gan sgriniau carreg, ac roedd y corff, yr ystlys, cangell y mynaich a'r brif allor yn ardaloedd ar wahân. Roedd y capeli yn yr adenydd, hefyd wedi'u gwahanu gan sgriniau. Addolai'r mynaich yn yr eglwys sawl gwaith y diwrnod, ac yn adenydd y gogledd mae grisiau'n arwain o ystafelloedd cysgu'r mynaich i'w defnyddio yn y nos. Mae drws yr ystlys ogleddol yn addurnedig oherwydd dyna'r fynedfa orymdeithiol o'r cloestr.

Yn y **cloestr** cerddai'r mynaich a gweithio wrth ddesgiau. Ar y mur dwyreiniol mae cwpwrdd llyfrau o'r ddeuddegfed ganrif (ond mae newidiadau diweddarach i'r adeilad wedi'i guddio'n rhannol) ac ar fur yr eglwys mae sedd yr eisteddai'r abad arni i ddarllen y Beibl gyda'r nos.

Dengys corbelau (cerrig cynnal) ym muriau'r cloestr fod y llwybrau cerdded gorchuddiedig wedi eu hailadeiladu o leiaf unwaith.

Y **cabidyldy** oedd canolfan fusnes yr abaty. Sylwch ar olion y seddau ar y muriau a'r pileri. Yn y parlwr y drws nesaf iddo, caniatawydd sgysiau hanfodol.

Roedd to carreg cromennog yn **ystafell gyffredin y mynaich** yn cael ei gynnal gan y pileri canol. Roedd y geudy ar ongl sgwâr. Gellid mynd yno o ystafelloedd cysgu y mynaich uwchben. Gellir gweld craith mur pen yr ystafelloedd cysgu ym mhen draw adenydd y gogledd.

Mae drws a ffenestri addurnedig yn **ffreutur y mynaich** (neuadd fwyta), sy'n dangos ei phwysigrwydd. Arweiniai'r drws yn y mur gorllewinol at bulpud y darllenai mynach oddi arno yn ystod prydau bwyd. Mae'r gegin a'r tŷ twymo wedi'u lleoli bob ochr i'r ffreutur, ac ystafelloedd y prior uwchben. Yn lle tân canolog y tŷ twymo — yr unig ystafell a oedd yn cael ei gwresogi — cedwid tân o Dachwedd 1 hyd ddydd Gwener y Grogolith.

Adeiladwyd **rhes y gorllewin** fel llety i'r brodyr lleyg, gyda neuadd fwyta ar y llawr gwaelod ac ystafelloedd cysgu uwchben. Yn ddiweddarach fe'u haddaswyd yn ystafelloedd preifat. Ar ochr ddeheuol y rhes hon mae'r fynedfa wreiddiol drwy'r portsh a'r parlwr allanol.

Neuadd agored oedd y **clafdy** yn wreiddiol, ond yn y bymthegfed ganrif fe'i rhannwyd er mwyn ei wneud yn fwy preifat. Drws nesaf mae'r gegin lle câi bwyd maethlon ei goginio i'r henoed a'r cleifion. Hwyl oedd yr unig fynedfa a gâi fwyta cig.

Drws nesaf i'r clafdy mae'r tŷ abad gwreiddiol. Adeiladwyd tŷ mwy palasaidd i'r gogledd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg wrth i'r abad ddod yn bwysicach.

Rhai syniadau ar gyfer gweithgareddau ar y safle


Chwarae Rôl

- Ail-grëwch ddiwrnod y mynaich drwy symud o gwmpas yr adeiladau yn y drefn gywir. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i ddeall gweithgareddau'r mynaich a sut y defnyddid yr adeiladau.
- Defnyddiwch amrywiaeth o safbwyntiau – mynach, newyddian, abad, abad sâl, brawd lleyg, gwas – a chanfyddwch yr ystafelloedd y byddent wedi eu defnyddio. Sut oedd eu bywydau'n wahanol? Pryd y byddent wedi cwrdd?
- Ail-grëwch eu gorymdaith, gan lafarganu cerddoriaeth syml.

Chwilio am gliwiau

- Pam fod ochr wastad gan rai o'r pileri yn yr eglwys?
- Darganfyddwch olion addurniadau. Beth sydd wedi newid yn yr eglwys ers pan oedd hi'n cael ei defnyddio?
- Yn y cabidyldy, ble roedd y mynaich yn eistedd?
- Pa dystiolaeth sydd fod bywyd yn y clafdy yn fwy cyfforddus?

Mae tywyslyfr newydd **Abaty Tyndyrn** yn cynnwys gwybodaeth a lluniau sy'n ail-greu bywyd y mynaich. Mae ar gael am ostyngiad o 25% at ddibenion addysgol o Adran Werthu Cadw. Ffôn 01443 336 092/094
Epost cadw.sales@wales.gsi.gov.uk



Braslunio a mesur

- Sut allwch chi gofnodi maint ac uchder yr eglwys? Faint yn fwy yw'r eglwys bresennol na'r un gyntaf? Mae sawl un o'r ffenestri wedi colli rhyw faint o'u rhwyllwaith: dewiswch un a thynnwch lun ohoni fel y gallai fod wedi ymddangos yn wreiddiol.
- Ydy'r cloestr yn sgwâr?
- Dim ond tua thrigain o fynaich oedd yn byw yn Nhyndyrn ar unrhyw adeg. Faint o fynaich allai eistedd yn y cabidyldy a'r ystafell fwyta?

Hamdden a thwristiaeth

- A ddylid gadael Tyndyrn fel adfail neu ei ailadeiladu?
- Sut fydddech chi'n gwella cyflwyniad y safle i ymwelwyr?
- Paratowch ganllaw byr i ymwelydd o dramor.

Eich ymweliad

Lleoliad

Mae Abaty Tyndyrn wedi'i leoli ger yr A466 rhwng Cas-gwent a Threfynwy ar lan orllewinol afon Gwy, bum milltir (8km) o gyffordd 2 yr M48.

Cyfleusterau

Siop, tai bach, lleoedd parcio i geir a bysiau, taith sain.

Access

Rhoddir cynllun o'r abaty i ymwelwyr sy'n cynnwys taith argymelledig i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae cynllun Braille gyda thaith sain ar gael, drwy drefniant gyda'r ceidwad. Mae tir y safle hwn yn borfa gyda rhai llwybrau cadarn, gwastad. Mae mynedfa'r siop/desg dalu yn wastad. Ceir paneli gwybodaeth ac arddangosfa. Darperir meinciau.

Mae pum lle parcio â symbol cadair olwynion ym maes parcio'r abaty. Mae'r tai bach cyhoeddus yn cynnwys tŷ bach anabl, er nad yw wedi ei addasu'n llwyr. Mae tŷ bach allwedd radar yn y maes parcio.

Mae mynediad am ddim i ymwelwyr anabl a'u cynorthwy-ydd yn ein holl henebion. Noder na chaniateir cŵn ar safleoedd Cadw am resymau iechyd, ond croesewir cŵn tywys a chŵn clywed ar gyfer pobl fyddar.

Mae gwybodaeth, cymorth a chyngor pellach ynghylch ymweld â'r safle ar gael gan geidwad yr heneb, a all hefyd drefnu **ymweliad cynllunio rhad ac am ddim** i arweinwyr grwpiau.

Y Ceidwad, Abaty Tyndyrn, Tyndyrn, Sir Fynwy NP16 6SE
Ffôn/Ffacs 01291 689251 Ebst tintern.abbey@cadw.co.uk

Prynwch y tywyslyfr newydd am ostyngiad o 25% at ddibenion addysgol o siop Abaty Tyndyrn neu o adran Werthu Cadw ym mhrif gyfeiriad Cadw.

Ffôn 01443 336092/094 Ebst cadw.sales@wales.gsi.gov.uk

Cadw
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn 01443 33 6000
Ffacs 01443 33 6001
Ebst cadw.education@wales.gsi.gov.uk
Gwefan www.cadw.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government